Thema: Tywydd

TGCh

Edrychwch ar bobl yn darlledu y tywydd ar y teledu.

Pa fath o iaith mae nhw'n ddefnyddio?

Fedrwch chi wneud yr un peth? Ffilmiwch eich hun yn egluro sut dywydd fydd hi dros y dyddiau nesaf!

Dyma rai syniadau ar ein thema tywydd.

Oes gennych chi syniadau eraill?

COFIWCH YRRU EICH GWAITH ATOM AR GOOGLE CLASSROOM neu CLASS DOJO

Iaith / Ysgrifennu

Ysgrifennwch erthygl papur newydd am ddigwyddiad yn ymwneud a'r tywydd.

Gallai fod yn lifogydd, sychder mawr, corwynt...

Cofiwch gynnwys:

- Enw'r papur
- Pennawd
- Is-bennawd
- Dyddiad
- Lluniau
- Dyfyniadau gan llygaid dyst.

Addysg Gorfforol

- Allwch chi greu dawns sy'n cyfleu tywydd? Beth am ddawns yn dangos storm? Gyrrwch fideo i ni!
- Rhoi cynnig ar un o wersi yoga Cosmic Kids (https://www.cosmickids.com/)

Iaith

Ymchwiliwch i agwedd o'r tywydd rydych yn meddwl sy'n ddiddorol – gall fod yn unrhyw beth. Yna dewiswch ddull o ddysgu eraill amdano e.e. poster/fideo/taflen wybodaeth neu recordio eich llais yn son am yr hyn rydych wedi ddysgu.

Mathemateg

Allwch chi gasglu data am y tywydd a'i gofnodi mewn tabl? Gallwch ddefnyddio appiau megis BBC Weather i'ch helpu.

Defnyddiwch J2data / JIT i greu graff o'r:

- Tymheredd.
- Tywydd (haul/glaw...)
- Cyflymder y gwynt.

Celf

Edrychwch ar wefan 'ORIELODL' (www.orielodl.com) Ewch ar eu sianel YouTube a cewch weld sut i greu celf gan ddefnyddio geiriau. Fedrwch chi greu llun o'r tywydd gyda geiriau ynddo?

Gall fod mor syml a haul gyda'r gair 'haul' ynddo neu diferyn glaw gyda 'glaw'. Neu beth am herio eich hun wrth ddefnyddio ansoddeiriau e.e. tanbaid, arllwys...beth am lun corwynt gyda'r gair 'troelli'?





Daearyddiaeth

Ydych chi'n adnabod pobol sy'n byw mewn rhan arall o'r wlad? Beth am byw mewn gwlad wahanol?

Beth am greu tabl i gymharu'r tywydd yma ac yn ble mae nhw'n byw.

(Cofiwch ofyn i oedolyn eich helpu i gysylltu gydag eraill)

Gwyddoniaeth

Ewch ati i greu eich gorsaf dywydd eich hun. Beth am fesur y glaw sy'n syrthio mewn 24awr neu o ba gyfeiriad mae'r gwynt yn dod.

Sut ydych chi am gofnodi? Mae'r dewis i fyny i chi!